Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Ysgol Headlands

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Headlands yn ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli mewn ardal breswyl ym Mhenarth, Bro Morgannwg. Mae'n rhan o elusen Action for Children. Mae'r ysgol yn cynnig lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl tymhorol ar gyfer disgyblion ag ymddygiad heriol iawn ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn addysgu 57 o ddisgyblion, o gyfnod allweddol 2 i'r cyfnod ôl-16.

Daw disgyblion o awdurdodau Cymru'n bennaf, gydag ychydig ddisgyblion o awdurdodau yn Lloegr. Mae pedwar ar ddeg o ddisgyblion â lleoedd preswyl tymhorol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae gan 21 ohonynt statws 'plentyn sy'n derbyn gofal'. Mae gan yr holl ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys anhwylderau diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae penodiadau diweddar yn cynnwys ail athro Saesneg, tiwtor lletygarwch ac arlwyo, dau gynorthwyydd addysgu lefel uwch a thechnegydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan-amser. Mae'r pennaeth wedi cyflwyno strwythur arweinyddiaeth newydd i gynorthwyo â gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a datblygu'r cwricwlwm lles ymhellach.

Mae newidiadau diweddar i'r cwricwlwm yn cynnwys ymestyn y dull thematig yng nghyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 a chynyddu ystod y cyfleoedd galwedigaethol ac achredu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5. Mae creu cyfleusterau newydd, sy'n cynnwys gweithdai lletygarwch ac arlwyo, a chynnal a chadw beiciau, wedi galluogi'r ysgol i ddatblygu partneriaethau newydd gyda busnesau lleol a chenedlaethol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Dyma gryfderau'r ysgol:

- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad yn 2012;
- mae disgyblion yn cyflawni safonau da yn eu dysgu;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu hymddygiad a'u medrau cymdeithasol;
- mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae'r timau arwain yn canolbwyntio'n dda ar wella'r ysgol;
- mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant o rannu arfer dda sy'n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu; ac
- mae'r uwch arweinwyr yn realistig a gonest. Maent yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol ac yn blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn dda.

### Meysydd i'w datblygu

Dyma faes yr ysgol i'w ddatblygu:

- er ei bod wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol, megis dechrau y mae gwaith yn ymwneud â thri o'r argymhellion.

### Argymhellion

A1 Datblygu strategaeth gwrth-fwlio gydlynus ymhellach i fynd i'r afael ag amgyffredion lleiafrif o ddisgyblion nad yw staff bob amser yn ymyrryd yn ddigon cyflym pan fydd ymddygiad yn debygol o droi'n fwlio

A2 Nodi addysgu rhagorol yn Headlands, ac mewn ysgolion eraill, a rhannu'r arfer hon gyda staff

A3 Gwneud yn siŵr bod disgyblion hŷn yn cael adborth ysgrifenedig manwl ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith

A4 Parhau i gryfhau cyfraniad y corff llywodraethol at y broses hunanarfarnu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Mynd i'r afael ag amgyffredion lleiafrif o ddisgyblion nad yw staff bob amser yn ymyrryd yn ddigon cyflym pan fydd ymddygiad yn debygol o droi'n fwlio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cryfhau rôl mentoriaid cymheiriaid ac wedi rhoi hyfforddiant allanol achrededig priodol iddynt i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o faterion yn gysylltiedig â bwlio. Darparwyd hyfforddiant pwrpasol allanol ar gyfer staff hefyd.

Mae'r ysgol wedi sefydlu tîm arwain sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gydlynu strategaeth gwrthfwlio gydlynus ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gydag aelodau cyngor yr ysgol i ddatblygu polisi gwrthfwlio sy'n gyfeillgar i blant.

Mae sesiynau tiwtorial bellach yn cael blaenoriaeth i godi materion yn ymwneud â bwlio a sut gall disgyblion gadw'u hunain yn ddiogel, gwneud ffrindiau, a dysgu am effaith eu hymddygiadau arnynt eu hunain ac ar bobl eraill.

Mae'n rhy gynnar eto i weld yr effaith y mae'r dulliau hyn yn ei chael ar fynd i'r afael ag amgyffredion y lleiafrif o ddisgyblion nad yw staff bob amser yn ymyrryd yn ddigon cyflym pan fydd ymddygiad yn debygol o droi'n fwlio.

**Argymhelliad 2: Lle y bo'r addysgu'n rhagorol, sicrhau bod athrawon yn rhannu eu harfer dda ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae tîm arwain 'da i ragorol' yr ysgol wedi nodi a rhoi arweiniad i'r holl staff ar nodweddion cyffredin y gwersi da yn Headlands. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau cychwyn sydd â chysylltiad agos ag amcanion dysgu a defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgu i ategu dysgu.

Mae aelodau'r tîm wedi ymweld ag ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd i ddatblygu eu gwybodaeth am arferion addysgu da ymhellach. Mae'r ymweliadau hyn wedi dylanwadu ar y dulliau a fabwysiadwyd yn yr ysgol. Maent wedi cynnal arsylwadau mewnol a nodi strategaethau addysgu da a rhagorol ar draws yr ysgol. Mae'r rhain wedi'u rhannu gyda staff ac wedi dod yn rhan o'r rhaglen sefydlu ar gyfer staff newydd eu penodi.

Cynhelir arsylwadau strwythuredig ar gymheiriaid ac mae'r tîm arwain 'da i ragorol' yn dadansoddi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'n rhy gynnar eto i fesur effaith lawn gwaith y tîm arwain 'da i ragorol'.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod marcio bob amser yn helpu disgyblion i wybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud i wella'u gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae polisi marcio'r ysgol wedi'i ddiwygio a darparwyd hyfforddiant priodol i staff. Mae aelodau'r uwch dîm arwain wedi samplu'r marcio a'r adborth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion. Maent wedi dadansoddi'r prif ganfyddiadau a nodi arferion cyson ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, nid yw arferion yn ddigon cyson ar gyfer disgyblion hŷn.

Mae angen i'r ysgol wneud yn siŵr bod disgyblion hŷn yn cael adborth ysgrifenedig manwl ar sut gallant wella'u gwaith.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod pob taflen waith yn briodol o ran oedran**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r uwch dîm arwain wedi canolbwyntio ar gynllunio gwahaniaethol a defnydd priodol o adnoddau a thaflenni gwaith sy'n briodol o ran oedran yn ystod arsylwadau gwersi. Mae deilliannau o'r arsylwadau ac o graffu ar waith disgyblion yn dangos bod yr ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

**Argymhelliad 5: Cryfhau cyfraniad y corff llywodraethol at y broses hunanarfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau priodol i sicrhau bod y llywodraethwyr yn cyfrannu'n llawnach at y broses hunanarfarnu. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi cytuno ar bolisi sy'n amlinellu eu cyfraniad cynyddol gydag amser. Mae eu rolau wedi'u cysylltu'n glir â'r targedau yng nghynllun gwella'r ysgol ac o ran gweithio tuag at fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae'n rhy gynnar eto i fesur effaith eu cyfraniad at y broses hunanarfarnu.

**Argymhelliad 6: Datblygu cynllun gwella'r ysgol ymhellach fel ei fod yn ddogfen fanwl a chynhwysfawr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, mae cynllun gwella'r ysgol wedi'i ddiwygio'n briodol. Mae'n canolbwyntio'n dda ar wella safonau disgyblion a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a'u medrau emosiynol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi llunio amserlen waith tair blynedd fanwl a defnyddiol. Mae'n cipio'n effeithiol y camau i'w cyflawni o fewn amserlen benodedig ar gyfer pob un o'r targedau yng nghynllun gwella'r ysgol.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Headlands |
| **Rhif yr ysgol** | 673/6025 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro ar ôl arolygiad Adran 163 |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 23 a 24 Hydref 2013 |
| **Perchennog** | Action for Children |
| **Staff** | 13 athro amser llawn gyda statws athro cymwysedig<br>1 athro rhan-amser gyda statws athro cymwysedig<br>1 tiwtor<br>1 technegydd TGCh rhan-amser<br>4 cynorthwyydd addysgu lefel uwch<br>20 cynorthwyydd addysgu<br>26 o staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 57 disgybl (51 bachgen a 6 merch) |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd a darpariaeth breswyl dymhorol am 38 wythnos |
| **Y math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Mae gan yr ysgol gymeradwyaeth anghenion addysgol arbennig i dderbyn disgyblion â datganiadau ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan yr ysgol gymeradwyaeth i addysgu disgyblion o gyfnod allweddol 2 i'r cyfnod ôl-16 oed. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Hydref 2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ionawr 2012 |
| **Ymweliad diwethaf gan AGGCC** | 17 Ionawr 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Meinir Rees AY |
| **Arolygydd Tîm** | Huw Davies AEM |